# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Gorffennaf 2003 i'w hateb ar 16 Gorffennaf 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**1. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Pa gamau rhagweithiol y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau y bydd is-ddeddfwriaeth yn barod yn brydlon yng Nghymru pan fydd y Mesur Llywodraeth Leol presennol yn cael ei basio'n ddeddfwriaeth sylfaenol. (OAQ27138)

**2. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y Mesur Llywodraeth Leol yn rhoi cyfle i ddinasyddion a staff gyfrannu at wella gwasanaethau cyhoeddus. (OAQ27052)

**3. Lynne Neagle (Tor-faen);** Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi llywodraeth leol i gyflawni'r nod o wella gwasanaethau lleol. (OAQ27110)

**4. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol. (OAQ27119)

**5. Jeff Cuthbert (Caerffili);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl llywodraeth leol yn y broses o ganiatáu i bobl hyn gael mynediad am ddim i byllau nofio. (OAQ27066)

**6. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ27098)

**7. Elin Jones (Ceredigion);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud y denfydd gorau posibl o arian Cymunedau yn Gyntaf. (OAQ27136)

**8. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Sut mae'r Gweinidiog am annog mwy o staff cymwys i aros yn y gwasanaethau cyhoeddus. (OAQ27044)

**9. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae'n monitro awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn defnyddio'u pwerau 'Lles' yn effeithiol ers eu cyflwyno gyntaf erioed yn Ebrill 2001. (OAQ27061)

**10. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A all y Gweinidog gadarnhau mai dydd Iau 6 Mai 2004 fydd dyddiad yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yng Nghymru. (OAQ27050) **R**

**11. Laura Anne Jones ( Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwelliannau a fu i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ers 1999. (OAQ27043)

**12. Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd);** Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi llywodraeth leol i gyflawni'r nod o wella gwasanaethau lleol. (OAQ27053)

**13. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar flaenoriaethau'r gyllideb Llywodraeth Leol ar gyfer y flwyddyn nesaf. (OAQ27096)

**14. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i roi mwy o arian i Awdurdodau Lleol yn unswydd i ysgwyddo baich y costau uwch a godir gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. (OAQ27065)

**15. Janice Gregory (Ogwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl llywodraeth leol yng Nghymru o ran gwneud y darpariaethau lleol angenrheidiol i bobl allu cymryd rhan mewn prosesau democrataidd. (OAQ27108) **TYNNWYD YN ÔL**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**1. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i atal y dirywiad sy'n parhau ym maes radio lleol yng Ngogledd Cymru. (OAQ27030)

**2. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa arian ychwanegol sydd ar gael ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru y tu allan i Gaerdydd. (OAQ27015)**R**

**3. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefydlu Canolfannau Dysgu Cymunedol yn y Fro Gymraeg er mwyn creu cyfleoedd i gynorthwyo'r gwaith o ddysgu'r Gymraeg. (OAQ27079)

**4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Gan mai hon yw Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa brosiectau ar gyfer pobl anabl y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bwriadu eu cefnogi. (OAQ27008)

**5. Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y flwyddyn hon a'r ddwy flynedd nesaf. (OAQ27076)

**6. Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ble y bydd y mater o'r £2 filiwn a addawyd i ganolfannau celfyddydol y tu allan i Gaerdydd yn cael ei drafod. (OAQ27080)**W**

**7. Lynne Neagle (Tor-faen);** Sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi mentrau

diwylliannol lleol yng Nghymoedd y De. (OAQ27089)

**8. Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw am drafod cyhoeddi nofelau diwydiannol Cymraeg clasurol gyda Chyngor Llyfrau Cymru. (OAQ27077)

**9. Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei ymweliad diweddar â gwyl gelfyddydau Biennale Fenis. (OAQ26997)

**10. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefyllfa ariannol Eisteddfod Genedlaethol Cymru. (OAQ27070)**W**

**11. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y gwariant yn ymwneud â’r £3.5 miliwn o arian y Cynulliad a roddwyd i Gyngor Casnewydd ar gyfer datgloddio’r Llong Ganoloesol, gwneud gwaith cadwraeth arni a’i harddangos. (OAQ27010)**R**

**12. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu’r Eisteddfod Genedlaethol. (OAQ27085)

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd yn dosbarthu unrhyw arian ychwanegol ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd nesaf. (OAQ27016)**R**

**14. David Davies (Mynwy);** Beth y mae’r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru. (OAQ27083)

**15. Denise Idris-Jones (Conwy);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cynlluniau i gyflwyno nofio am ddim ar gyfer pobl hy^n yng Nghymru. (OAQ27092)

## *Gofyn i Bwyllgor y Ty*

**1. Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff cynrychiolwyr Pwyllgor y Ty ddatganiad ar y cynlluniau i ddiweddaru’r holl ddeunyddiau addysgol perthnasol yng Nglanfa’r Cynulliad. (OAQ27160)

**2. Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Pa gynlluniau sydd gan y Cynulliad i werthu dwr potel o Gymru ym mwytai y Cynulliad. (OAQ27326) **W**

**3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddarparu diodydd Masnach Teg trwy beiriannau a gwasanaethau arlwyo'r Cynulliad. (OAQ27327) **W**

**4. Leanne Wood (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddarparu cyfleusterau ailgylchu hygyrch ar gyfer plastig a gwydr yn y Cynulliad. (OAQ27341)